CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 8 HYDREF 2007 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 17 MEDI 2007

2.1 Cytunwyd â'r rhain.

3. MATERION YN CODI

Arolygon Cymunedol

3.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod ateb wedi'i anfon i Gyngor Sir Ynys Môn ynghylch ei gais am estyniad i'r terfyn amser y gofynnwyd iddo gyflwyno unrhyw sylwadau, fel a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cysylltu â'r Comisiwn yn ceisio cadarnhad y byddent yn gallu gwneud cynrychiolaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol.

4. AROLWG O'R CYMUNEDAU YN SIR YNYS MÔN – CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

4.1 Nododd y Comisiwn y sylwadau a wnaed gan Gyngor Tref Caergybi a Chyngor Cymuned Trearddur am Ynys Gybi. Nodwyd, er bod siom ynghylch penderfyniad y Comisiwn i beidio ag ymestyn Cymuned Caergybi i gynnwys Ynys Gybi i gyd, roedd y Cyngor yn cefnogi'r ffin amgen a gynigiwyd gan y Comisiwn. Roedd Cyngor Cymuned Trearddur wedi gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ar sail bod yr ardaloedd y bwriadwyd eu trosglwyddo i Gaergybi wedi cael eu cynrychioli'n dda ac y gofalwyd amdanynt yn dda gan Gyngor Trearddur ac roedd mwy o berthynas rhyngddynt â'u hardal wledig yn hytrach nag ardal drefol Caergybi. O ran y cynnig amgen a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Trearddur i wella'r cynigion ar gyfer y ffin ger parc manwerthu Penrhos a'i throsglwyddo i Gaergybi, nododd y Comisiwn nad oedd y ffin amgen yn dilyn nodweddion wedi'u diffinio'n eglur ar y ddaear ac ystyrid bod hyn ond fymryn yn well na'r trefniadau sy'n bodoli eisoes. Ystyriodd y Comisiwn bod ei gynigion drafft o ran Ynys Gybi yn welliant ar y ffin bresennol gan eu bod darparu rhaniad wedi'i ddiffinio'n fwy eglur rhwng y ddwy gymuned. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw ei gynigion drafft ar gyfer adroddiad ei gynigion terfynol.

4.2 O ran y ffiniau rhwng Cymunedau Cwm Cadnant, Penmynydd a Phentraeth, nododd y Comisiwn sylwadau Cyngor Cymuned Cwm Cadnant yn gwrthwynebu'r cynigion drafft ar

sail eu bod yn mynd y tu hwnt i'r ymarfer 'tacluso' roedd y Cyngor wedi bwriadu'n wreiddiol wrth gyflwyno eu cynigion. Ystyriai'r Comisiwn ei bod yn ymddangos bod y rhannau o Gwm Cadnant a gynigiwyd i'w trosglwyddo i Benmynydd a Phentraeth yn eu cynigion drafft a mwy o berthynas â'r cymunedau hynny ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn gwrthddweud hyn yn ystod y cyfnod cynrychiolaeth ar gyfer y cynigion drafft. Nodwyd bod cyngor Cymuned Pentraeth yn cefnogi'r cynigion drafft ac nad oedd Cyngor Cymuned Penmynydd yn gwrthwynebu'r cynigion gan nad oeddent yn lleihau maint daearyddol eu cyngor. Yn ogystal, roedd yr ardaloedd o dan sylw yn brin eu poblogaeth ac felly bach fyddai'r effaith ar nifer y pleidleiswyr ym mhob cymuned. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw ei gynigion drafft ar gyfer ei adroddiad cynigion terfynol.

4.3 Ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Llanfair Mathafarn Eithaf a Phentraeth, nododd y Comisiwn nad oedd gan Gyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar ei gynigion drafft a bod Cyngor Cymuned Pentraeth yn eu cefnogi. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw ei gynigion drafft ar gyfer ei adroddiad cynigion terfynol.

4.4 Adroddwyd bod yn rhaid i'r Comisiwn, yn ôl y Ddeddf Llywodraeth Leol ystyried paratoi rhagolwg pum-mlynedd o ffigurau etholwyr wrth gynnig newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol cymunedol. Gofynnwyd am y ffigurau rhagolwg hyn oddi wrth Gyngor Sir Ynys Môn a byddai rhaid eu hystyried wrth edrych ar gais Gyngor Tref Caergybi am ostyngiad yn nifer eu cynghorwyr cymunedol ac i'r ardaloedd eraill lle cynigir gwneud newidiadau.

5. AROLWG O'R FFIN RHWNG SIR POWYS A BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL – CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a ddaeth i law a'r ffin amgen a gynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Adroddwyd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymweld â'r ardal a gwelwyd nad oedd y newid i'r ffin a gynigiwyd gan Gyngor Sir Powys yn addas mewn rhai mannau gan ei fod yn rhannu'r caffi a oedd yn eiddo i Reilffordd Fynyddig Aberhonddu a'u bod hefyd yn rhannu daliadau a oedd yn eiddo i ffermwr lleol. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi cyfarfod â'r ffermwr a thrigolion eraill i drafod y pryderon a godwyd ganddynt yn eu sylwadau cynrychiolaethol. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd wedi cysylltu â Chyfarwyddiaeth Materion Gwledig y Cynulliad a'r Gofrestrfa Tir er mwyn datrys rhai o'r materion hyn. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i gasglu gwybodaeth bellach am y materion hyn.

5.2 Ystyriodd y Comisiwn gynnig ffin amgen Merthyr Tudful sy'n ymestyn i'r gogledd i gynnwys Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored sy'n eiddo i'r Cyngor. Ystyriodd y Comisiwn bod yr ardal yng nghynnig Merthyr Tudful o faint sylweddol gan y byddai'n golygu trosglwyddo ardal fawr o dir gwledig prin ei phoblogaeth o Bowys i Ferthyr Tudful er mwyn cynnwys y Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored o fewn ei ffiniau. Nodwyd bod enghreifftiau eraill, fodd bynnag, ble roedd awdurdodau lleol yn berchen ar gyfleusterau tebyg wedi'u lleoli y tu allan i'w hardaloedd. Ystyriodd y Comisiwn, er y gall fod manteision i Ferthyr Tudful gael y Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored o fewn ffiniau eu cyngor, nad oedd hyn ynddo'i hun yn haeddu'r newid sylweddol i'r ffin a oeddent wedi'i gynnig.

5.3 **Cytunwyd** nad oedd y ffiniau amgen a gynigiwyd gan Bowys na Merthyr Tudful yn foddhaol am resymau amrywiol a dylid archwilio posibiliadau amgen i adlinio'r ffin i gynnwys yr ardal a gynigiwyd gan Gyngor Sir Powys.

6. Y CYSYNIAD O GYMUNED

6.1 Adroddwyd bod y Comisiwn wedi cynhyrchu diffiniad o'r term 'cymuned' ym 1976. Nododd y Comisiwn y diffiniad hwn ac ystyriodd na fu nemor ddim newid sylweddol yng Nghymru ers llunio'r diffiniad. Nodwyd bod y Comisiwn Etholiadol wedi cynhyrchu dogfen ar Hunaniaeth Gymunedol ac ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau gael copi. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn anfon copi o'r ddogfen hon i Aelodau eraill ar neges e-bost.

6.2 Ystyriwyd bod dehongliad y Comisiwn o gysyniad cymuned yn un daearyddol yn hytrach na chymdeithasol neu ddiwylliannol gan mai'r cymunedau oedd yn ffurfio'r "meini adeiladu" o'r lle y crëwyd yr adrannau etholiadol. Golygai hyn y byddai diffiniad y Comisiwn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir gan gyrff a sefydliadau eraill. **Cytunwyd** y byddai diffiniad 1976 y Comisiwn yn cael ei fabwysiadu fel ei ddiffiniad cyfredol. Ystyriwyd nad oedd angen cynnwys y diffiniad yn y llyfryn arweiniad ar arolygon cymunedol ond y byddai'r diffiniad ar gael ar wefan y Comisiwn.

7. UNRHYW FATER ARALL

Arolwg o Rôl a Swyddogaethau Aelodau Etholedig

7.1 Ystyriodd y Comisiwn ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Arolwg o Rôl a Swyddogaethau Aelodau Etholedig. Roeddent yn siomedig i nodi nad oedd yr ymateb yn cynnwys dim ynghylch yr argymhellion ar gyfer nifer cynghorwyr.

Cyfarfodydd Blynyddol Agored

7.2 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn diweddaru'i gofnod hanesyddol o'r lleoliadau a'r nifer a oedd yn bresennol yn y Cyfarfodydd Blynyddol Agored a fyddai cael ei arolygu yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn er mwyn cynorthwyo gydag ystyriaeth ragbaratoadol cyfarfod 2008.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

8.1 Roedd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dydd Iau 15 Tachwedd 2007 am 10:30 – 10:45
Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2007 am 10:30